

Mae YGC (Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy) yn ymgynghoriaeth amlddisgyblaeth sydd y darparu atebion arloesol a chynaliadwy sydd yn ateb anghenion cynllunio, dylunio a gweithredu prosiectau sectorau isadeiledd a thrafnidiaeth, eiddo ac adeiladu, amgylchedd a dŵr ac arfordirol. Yn gweithio fel endid masnachol o fewn Cyngor Gwynedd, YGC yw'r ymgynghoriaeth llywodraeth leol fwyaf yng Nghymru yn gweithio gyda rhestr eang ac amrywiol o gleientiaid yn y sector gyhoeddus a preifat.

Mae YGC yn anelu tuag at gyrraedd y gofynion sydd wedi eu gosod gan Cyngor Gwynedd tra rhoi trigolion y sir yn ganolog i phopeth yr ydym yn ei wneud.

Mae YGC wedi ymrwmo i fodloni holl oblygiadau cydymffurfio yn cynnwys gofynion cleientiaid a rhan-ddeiliaid.

I helpu ni ateb ein gofynion a chyflawni ein amcanion mae'r uwch rheolwyr wedi buddsoddi adnoddau i sefydlu a chynnal Sustem Rheoli Ansawdd sydd yn ateb gofynion BS EN ISO 9001:2015. Mae'r sustem rheoli wedi ei seilio ar yr egwyddorion o:

- **Flaenoriaethu cwsmeriaid** –Cyfarch eu gofynion tu hwnt i'w disgwyliadau drwy rhoi eu anghenion yn flaenllaw yn ein gweithredoedd.
- **Arweinyddiaeth** – Rhoi undod mewn pwrpas a chyfeiriad.
- **Ymrwmo pobol** – Rhoi grym a gweithio'n agos gyda'n staff i greu ac ychwanegu gwerth.
- **Dull proses o weithio** – Cyflawni atebion disgwylidig a chyson drwy sustem cydlynol a mwyhau ein gallu i ganolbwyntio ar ein prosesau allweddol a chyfleon i wella.
- **Gwelliant** – Canolbwyntio ar welliant parhaus.
- **Penderfynu ar sail tystiolaeth** – Gwneud penderfyniadau ar sail dadansoddi a gwerthuso data a gwybodaeth o archwiliadau mewnol ac allanol, asesiadau ac adborth cleientiaid.
- **Rheoli perthnasau** – Rheoli ein perthnasau gyda ein rhan-ddeiliaid a buddgyfranogwyr a rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i'n gwaith ac ein penderfyniadau.

Mae YGC wedi ymroddi i fabwysiadu yr egwyddorion yma ac i wella'r sustem rheoli ac ansawdd ein gwasanaeth yn ddi-baid.

Fe fydd YGC yn sefydlu amcanion ansawdd fydd yn fesuradwy ac yn berthnasol i'n gwasanaeth.

Drwy arweiniad cadarn ar phob lefel a chyfathrebu effeithiol gyda ein rhan-ddeiliaid fe fydd YGC yn cyflawni yr egwyddorion ac amcanion sydd wedi eu traethu yn y bolisi yma.

Huw Williams

Pennaeth Gwasanaeth

10/06/2019